GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

**Anfonwyd drwy e-bost 20 Mawrth 2019**

## Cymru Iachach – Cynaliadwyedd Gofal Sylfaenol

Mae Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd, wedi cyhoeddi y bydd practisiau meddygon teulu yn elwa ar y canlynol o 1 Ebrill 2019:

- GPWales, sef gwefan, wedi'i dylunio gan feddygon teulu, sy'n galluogi meddygon teulu i hysbysebu swyddi gwag amlddisgyblaethol. Ar ben hynny, mae'n galluogi'r gwaith o gyfeirio a chyflwyno ymgeiswyr yn effeithiol drwy raglen symleiddio i feddygon teulu dan hyfforddiant a'r ymgyrch Train.Work.Live
- Indemniad i Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol, sef y cynllun newydd a gefnogir gan y wladwriaeth i yswirio gweithgarwch GIG pob ymarferydd meddygol cyffredinol am hawliadau sy'n dod i'r fei o 1 Ebrill 2019
- Y System Genedlaethol ar gyfer Adrodd am y Gweithlu, sef offeryn ar gyfer gweithlu gofal sylfaenol sy'n sicrhau bod ffordd o adnabod pob meddyg teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol sy'n cael ei gyflogi mewn practis meddyg teulu, a fydd yn cael ei yswirio gan yr Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol. Mae hefyd yn galluogi'r gwaith o gynllunio'r gweithlu yn haws.
- Bod ar y Gofrestr Locwm Cymru gyfan, sef y pwynt cyswllt cyntaf i bractisiau adnabod meddygon teulu locwm sydd wedi eu cofrestru ar y Gofrestr Locwm Cymru gyfan a'r Rhestr Cyflawnwyr Meddygol, a sicrhau bod meddygon teulu locwm yn elwa ar y Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol.

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi croesawu'r cyfle i weithio mewn partneriaeth â Phwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru a Llywodraeth Cymru i ddarparu'r gwasanaethau newydd hyn i bractisiau meddygon teulu.

Ceir manylion am y cynlluniau ynghlwm a byddant ar gael ar wefan y Bartneriaeth Cydwasanaethau, a fydd yn lansio ar 1 Ebrill 2019. Yn y cyfamser, gellir gwneud unrhyw ymholiadau i:

| Ar gyfer ymholiadau am yr **Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol**, cysylltwch â Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru: | |
|---|---|
| E-bost: | GMPI@wales.nhs.uk |
| Ffôn: | 029 2090 5454 |

| Ar gyfer ymholiadau am y **Gofrestr Locwm Cymru gyfan, Gwefan GPWales a NWRS Cymru**, cysylltwch â Gwasanaethau Cyflogaeth Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru: | |
|---|---|
| E-bost: | NWSSP.PrimaryCareWNWRS@Wales.nhs.uk |
| Ffôn: | 01792 890490/0498 |

Neil Frow

Rheolwr Gyfarwyddwr
**Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru**

4/5 Charnwood Court
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QZ